**Cyfraith Gyhoeddus Cafcass Cymru**
**Rôl Gwarcheidwad Plant mewn Achosion Gofal (Ceisiadau Adran 31)**
**(Gorffennaf 2023)**

Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud cais i'r llys am orchymyn gofal neu oruchwyliaeth, caiff gwarcheidwad plant o Cafcass Cymru ei benodi gan y llys i gynrychioli'r plentyn yn yr achos a bydd yn gyfrifol am wneud argymhellion i'r llys ynghylch lles y plentyn.

## Beth mae gwarcheidwaid plant yn ei wneud?

- Mynd i weld y plentyn, dadansoddi'r materion a rhoi cyngor clir, gyda ffocws i'r llys o ran y ffordd orau ymlaen ar gyfer y plentyn.
- Casglu dymuniadau a theimladau'r plentyn drwy ystod o ddulliau.
- Yn dibynnu ar oedran a dealltwriaeth y plentyn, bydd yn ystyried sut orau i roi gwybod i'r plentyn am y prif benderfyniadau ac yn ystyried sut orau y gall y plentyn gymryd rhan.
- Ystyried y lle a'r dull mwyaf priodol o gyfarfod a siarad â phartïon.
- Fel rheol, bydd gwarcheidwad plant yn llunio dim mwy na dau adroddiad/datganiad o sefyllfa – un o'r enw Gwrandawiad Rheoli Achos ar gyfer y gwrandawiad cyntaf ac un ar gyfer y Gwrandawiad Datrys Materion tuag at ddiwedd yr achos.
- Dylai gwarcheidwad plant ond fynychu gwrandawiad os yw'n gwbl angenrheidiol er mwyn rhoi tystiolaeth neu wrando ar dystiolaeth sy'n hanfodol i'w hargymhellion.
- Dylai'r gwarcheidwad plant ofyn i'r llys eu hesgusodi mewn achosion pan fydd presenoldeb cyfreithiwr y plentyn yn ddigonol. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd gwarcheidwad y plentyn wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r cyfreithiwr a bydd dal modd cysylltu ag ef fel y cytunwyd (er enghraifft dros y ffôn neu drwy e-bost).

## Beth fydd y gwarcheidwad plant yn ei wneud cyn y Gwrandawiad Rheoli Achos?

- Ystyried y materion allweddol o safbwynt y plentyn.
- Penodi cyfreithiwr sy'n aelod o gynllun Achredu Cyfraith Plant Cymdeithas y Gyfraith i gynrychioli'r plentyn drwy'r achos.
- Dadansoddi tystiolaeth yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r risgiau i'r plentyn ac effaith niwed arno, rhoi barn ar sefyllfa'r plentyn a nodi unrhyw fylchau yn y wybodaeth neu yng nghamau gweithredu'r awdurdod lleol a rhoi cyngor ar sut y gellir llenwi'r bylchau hynny.
- Gwneud pob ymdrech i siarad â'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig i drafod y dystiolaeth cyn y gwrandawiad.
- Sicrhau bod cynllun yr awdurdod lleol yn ddiogel i'r plentyn a'i fod yn diwallu anghenion y plentyn, sy'n cynnwys ystyried profion cyfreithiol a chyfraith achosion perthnasol.
- Yn ogystal â'r plentyn, bydd yn ystyried pa bobl y mae angen siarad â nhw, fel aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol, yn dibynnu ar anghenion yr achos. Gall hyn gynnwys pobl y mae'r plentyn wedi'u nodi eu bod yn arwyddocaol yn ei fywyd.
- Pan fydd Swyddog Adolygu Annibynnol yn rhan o fywyd plentyn, dylai'r gwarcheidwad plant wneud pob ymdrech i gyfathrebu â'r swyddog cyn gynted â phosibl.

- Paratoi adroddiad neu ddatganiad o sefyllfa (os yw'r Llys wedi gorchymyn hynny) a mynd i'r Gwrandawiad Rheoli Achos os oes angen gwneud hynny.

## Beth fydd y gwarcheidwad plant yn ei wneud cyn y Gwrandawiad Datrys Materion?

- Dadansoddi tystiolaeth derfynol yr awdurdod lleol ac ymgysylltu â nhw mewn perthynas ag unrhyw arsylwadau.
- Trafod ac ystyried barn y plentyn ar y cynllun hwn a sicrhau y cafodd barn y rhieni o'r cynllun ac o unrhyw gynigion amgen eu hystyried.
- Paratoi dadansoddiad / datganiad sefyllfa ysgrifenedig a mynd i'r Gwrandawiad Datrys Materion / Gwrandawiad Terfynol os yw'n debygol o gael ei herio ac os bydd tystiolaeth yn cael ei chlywed. Dylid rhoi ystyriaeth i esgusodi'r gwarcheidwad plant ar ôl i dystiolaeth gael ei chyflwyno.

## Beth arall allai gwarcheidwad plant ei wneud?

- Arsylwi'r cyswllt rhwng y plentyn ac aelodau allweddol o'r teulu.
- Gofyn i asiantaethau wneud datgeliadau gyda chymeradwyaeth y llys.
- Mynd (ac arsylwi) i gyfarfodydd allweddol yr awdurdod lleol (os oes angen ac os yw hynny'n gymesur ag anghenion yr achos).
- Ymweld ag aelodau'r teulu sydd wedi cael eu hasesu i ofalu am y plentyn neu sy'n aelodau allweddol o rwydwaith y plentyn.

## Beth fydd y gwarcheidwad plant yn ei wneud ar ddiwedd yr achos?

- Ar ôl i'r llys wneud Gorchymyn Terfynol, bydd rhan y gwarcheidwad plant yn dod i ben. Lle y bo'n briodol, mae'n arfer da i'r gwarcheidwad plant gyfarfod â'r plentyn i esbonio penderfyniad terfynol y Llys iddo.
- Bydd disgwyl i'r gwarcheidwad plant hefyd siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol i sicrhau ei fod yn deall y cynllun gofal y cytunwyd arno ar gyfer y plentyn ac i rannu gwybodaeth. Dylid cofnodi'r drafodaeth hon yn glir ar ffeil achos electronig y plentyn.

## Gwybodaeth bwysig i'w nodi:

- Fel rheol, byddem yn disgwyl i ddadansoddiad llawn gael ei lunio ar gyfer y gwrandawiad lle y caiff penderfyniadau eu gwneud ar sefydlogrwydd a threfniadau cyswllt.
- Mae Cafcass Cymru yn darparu gwasanaeth gweithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ni fydd y gwarcheidwad plant ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Nid yw'r gwarcheidwad plant yn helpu i drefnu na hwyluso'r gwaith o oruchwylio cyswllt nac yn cynnig help i gludo plant.
- Nid yw'r gwarcheidwad plant yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, dylid cyfathrebu newidiadau arwyddocaol sy'n berthnasol i les y plentyn i'r gwarcheidwad plant yn ddi-oed.

## Beth fydd yn digwydd os caiff yr achos ei restru fel mater o frys?

- Yn achos cais mewn argyfwng, bydd Cafcass Cymru yn ymdrechu i ddynodi gwarcheidwad plant i fynd i'r gwrandawiad llys. Ni fydd adroddiad ysgrifenedig ar gael.